

**IS-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYD-BWYLLGOR
CORFFOREDIG RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU**

(Trwy MS Teams)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Iau, 2 Tachwedd 2023

Cadeirydd:	Cynghorydd R.Sparks
Is-gadeirydd:	Cynghorydd T.Bowen
Cynghorwyr:	S.Pursey, D.Howlett, M.John, E.Schiavone and P.Black
Swyddogion sy'n Bresennol:	L.McAndrew, J.Eul, C.Griffiths, J.Jones, D.Giffiths, S.Davies, D.John, D.Thomas and A.Thomas
Gwahoddedigion	Cynghorydd R.Stewart

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2023 fel cofnod gwir a chywir.

4. **GOHEBIAETH RHWNG CADEIRYDD PWYLLGOR Y RHAGLEN
GRAFFU A CHADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Rob Stuart, Cadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru am fod yn bresennol.

Mynegodd aelodau'r pwyllgor craffu eu pryderon ynghylch yr amserlenni a bennir gan Lywodraeth Cymru y disgwylir i'r Cyd-bwyllgor eu bodloni. Ymhellach, mynegwyd pryderon nad oes darpariaeth gyllidebol i gefnogi hyn.

Holodd yr Aelodau a oedd y pwyllgor wedi derbyn unrhyw ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â thrafnidiaeth.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Stuart fod y pwyllgor yn parhau i bwysleisio, er mwyn i'r Cyd-bwyllgor gyflawni cyfrifoldebau a rhwymedigaethau'r Cyd-bwyllgor, fod yn rhaid iddo gael ei ariannu'n briodol gan Lywodraeth Cymru. Er bod y pwyllgor yn parhau i weithio, dim ond i'r gyllideb y cafodd ei darparu y gall weithio iddo.

O ran y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd, wrth gyflwyno'r cynllun, yn rhyddhau £125,000 i'r Pwyllgor. Fodd bynnag, cydnabuwyd na fyddai'r cyllid yn ddigonol i gyflawni popeth y mae'r pwyllgor yn dymuno ei wneud o ran cynllunio trafndiaeth ranbarthol.

Holodd yr Aelodau a oedd unrhyw eglurder wedi'i roi i'r Cyd-bwyllgor mewn perthynas â rôl Trafnidiaeth Cymru o ran cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Cadarnhaodd y Cynghorydd Stuart fod amrywiaeth o drafodaethau parhaus yn cael eu cynnal.

Cadarnhaodd swyddogion fod swyddog arweiniol o Trafnidiaeth Cymru a bydd rhywfaint o gymorth o ran modelu, ond y tu hwnt i hynny mae swyddogion yn ansicr o gymorth Trafnidiaeth Cymru. Mae llinell amser yn cael ei datblygu ar gyfer y cynllun a dyma fydd un o'r ceisiadau cyntaf am gymorth gan Trafnidiaeth Cymru.

Cyfeiriodd yr Aelodau at lythyr Archwilio Cymru, yn enwedig y risgiau a nodwyd gan y Cyd-bwyllgor fod ganddynt ddigon o adnoddau i gyflawni ei amcanion yn y rhanbarth. Dywedwyd wrth yr Aelodau, pan oedd trafodaethau'n cael eu cynnal ledled Cymru cyn cyflwyno'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, fod y 22 awdurdod ledled Cymru yn glir i Lywodraeth Cymru na ddylai'r CBC roi baich ychwanegol ar

awdurdodau lleol. Bydd y CBC yn ymdrechu i gyflawni ei nodau ond dim ond gwaith y mae ganddo ddigon o gyllid ar ei gyfer y gall ei wneud ac ni ellir cymryd arian o feysydd eraill, fel Gofal Cymdeithasol ac Addysg, i ariannu gwaith y CBC.

Mae'r trefniadau rhanbarthol wedi'u sefydlu gydag ymagwedd debyg at drefniadau Dinas-ranbarth Bae Abertawe, ac eithrio'r Parciau Cenedlaethol, sy'n rhan o drefniadau presennol y CBC. Treuliwyd amser yn sefydlu strwythur y trefniadau rhanbarthol i sicrhau eu bod yn gweithredu ar y lefel fwyaf effeithlon. Mae'r pedwar awdurdod lleol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Ar yr amod y gellir darparu adnoddau a chyllid priodol ar gyfer y trefniadau, roedd Cadeirydd y CBC yn hyderus bod sylfaen gref iawn i weithio ohoni, a mynegwyd hyn i'r archwilwyr.

Cadarnhawyd bod cyllid mewn perthynas â'r targed sero net yn dod i'r cyngor yn uniongyrchol ar sail arweiniol leol, nid drwy'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Er mwyn cyrraedd y targedau datgarboneiddio erbyn y dyddiad a bennwyd gan Lywodraeth y DU, bydd angen cyllid sylweddol.

Rhoddodd y Cynghorydd Stuart enghraifft o brosiect carbon isel cynaliadwy a chyraeddadwy. Mae'r prosiect Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer yn darparu biliau ynni isel i'r rheini sy'n byw yn yr eiddo ac yn cadw'r gadwyn gyflenwi ar gyfer y prosiect yn lleol.

Diolchodd yr aelodau i'r Cynghorydd Stuart am ddod i'r cyfarfod.

Nododd yr aelodau'r eitem.

Yn dilyn craffu, nodwyd yr eitem.

5. **LLYTHYR ARCHWILIO CYMRU - SYLWADAU AR GYNNYDD Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG**

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad fel y'i dosbarthwyd gyda'r agenda. Rhoddwyd crynodeb i'r Aelodau o'r gwaith archwilio a oedd wedi digwydd mewn perthynas â'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

O ran yr agenda tlogi, nododd yr aelodau fod yn rhaid sefydlu hyn hefyd o fewn y Cyd-bwyllgor Corfforedig, yn ogystal ag yn unigol o fewn y pedwar awdurdod cyfansoddol. Mynegodd yr Aelodau eu pryder ynghylch dyblygu gwaith a holwyd sut y byddai'r Cyd-bwyllgor

Corfforedig yn gwahaniaethu oddi wrth yr awdurdodau cyfansoddol. Cadarnhawyd y byddai'r CBC yn edrych ar yr elfennau tlodi plant mewn perthynas â phob un o'i dair swyddogaeth bresennol.

Yn dilyn craffu, nodwyd yr eitem hon.

6. **CYNLLUN GWEITHREDU'R CTRH I'W GYFLWYNO I LYWODRAETH CYMRU**

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r wybodaeth fel y'i dosbarthwyd yn y pecyn agenda.

Holodd yr Aelodau sut gall y pwyllgor craffu ymgysylltu â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wrth iddo fynd rhagddo. Ar ben hynny, holwyd a fyddai'r achos o blaid newid yn barod i'r pwyllgor craffu ei ystyried yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, i gynnal rhywfaint o waith craffu ymlaen llaw ar yr eitem.

Roedd swyddogion yn ymwybodol o'r amserlenni uchelgeisiol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Er bod oedi gyda'r canllawiau ar gyfer y CTRh, nodwyd nad oedd y dyddiad ar gyfer rhoi'r cynllun ar waith, sef 2025, wedi symud. Nododd swyddogion, gan fod y CBC yn gymharol newydd, fod elfennau ymgysylltu ac ymgynghori'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn dal i gael eu hystyried o ran sut y gellid gwneud hyn o fewn yr amserlenni. Byddai swyddogion yn croesawu arweiniad gan CBC a'r pwyllgor craffu cyfatebol.

Pwysleisiodd yr Aelodau'r angen parhaus am ddeialog barhaus gyda Chadeirydd y pwyllgor craffu gan swyddogion, er mwyn sicrhau bod dyddiadau allweddol yn cael eu deall.

Cyfeiriodd yr aelodau at y llythyr a anfonwyd gan y CBC at Lywodraeth Cymru.

Nododd yr Aelodau y £125,000 sydd i'w dderbyn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol gan Lywodraeth Cymru. Nododd swyddogion nad yr arian hwn fyddai'r swm cyfan y disgwylir i ddatblygu'r cynllun cyfan. Ymhellach, nododd swyddogion y byddent yn disgwyl rhywfaint o hyblygrwydd o ran pryd y mae'n rhaid gwario'r arian gan y byddai hyn yn dibynnu ar ddatblygiad y cynllun.

Holodd yr Aelodau ynghylch maint yr ymgynghoriad. Cadarnhaodd swyddogion y byddai'n cynnwys rhanddeiliaid, aelodau a busnesau allweddol. Byddai hefyd yn ystyried datblygiadau eraill sy'n cael eu cyflwyno.

Mynegodd yr aelodau bryderon ynghylch y trefniadau ymylol a sut y gallai ardaloedd anghysbell yng ngorllewin Cymru elwa o drefniadau o'r fath. Dywedodd swyddogion fod ystyriaeth o'r fath wedi'i nodi mewn canllawiau gan Lywodraeth Cymru. Pwysleisiodd swyddogion bwysigrwydd ymgynghori da yn y cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn ystyried ac yn mynd i'r afael â phob maes yn llawn ac yn adlewyrchu amrywiaeth y rhanbarth.

Gofynnodd yr Aelodau i gael golwg ar yr achos o blaid newid cyn gynted â phosib.

Yn dilyn craffu, nodwyd yr eitem.

7. **BLAENRAGLEN WAITH Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG 2023-2024**

Nodwyd yr eitem hon.

8. **BLAENRAGLEN WAITH 2023/2024**

Cytunodd yr Aelodau i ychwanegu Achos o Blaid Newid y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol at y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer mis Ionawr 2024.

9. **EITEMAU BRYD**

Nid oedd unrhyw eitemau bryd.

TRAILER_SECTION>

CADEIRYDD